Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion

Triniaeth Hormonau

Adran Wroleg

Beth yw hormonau?

Mae llawer o wahanol hormonau yn y corff ac mae gan bawb hormonau. Maent yn gemegolion yn y gwaed ac mae gan bob hormon swyddogaeth wahanol sy'n effeithio ar wahanol organau yn y corff. Efallai eich bod wedi clywed am inswlin ac adrenalin, mae'r ddau ohonyn nhw yn hormonau.

Mewn achosion o ganser y brostad yr hormon **testosteron** sy'n bwysig. Cynhyrchir testosteron yn y ceilliau yn bennaf, ond mae'r chwarennau adrenal (neu uwcharennol). Un o swyddogaethau testosteron yw rheoli'r gwaith, twf a'r datblygiad arferol o organau cenhedlu gwrywaidd, ac mae'r brostad yn un ohonyn nhw.

Mae triniaeth hormonau ar gyfer canser y brostad yn gweithio naill ai drwy atal y ceilliau rhag cynhyrchu'r hormon gwrywaidd testosteron, neu drwy atal effaith testosteron ar y corff. Mae testosteron yn gweithredu fel bwyd i'r canser, a gan ei dynnu i ffwrdd, arafir twf y canser. Yn y pen draw fodd bynnag, mae'r canser yn dysgu i dyfu heb destosteron. Ni fydd felly therapi hormonau yn gweithio trwy'r amser, ond os aiff popeth yn iawn, bydd yn cadw'r canser dan reolaeth am nifer o flynyddoedd.

A gaf i gael llawdriniaeth neu radiotherapi?

Pan fydd canser y brostad yn lledaenu, mae'n mynd i'r tu allan i'r brostad i mewn i'r meinweoedd o'i gwmpas **(wedi lledaenu'n lleol)** ac wedyn i'r esgyrn **(metastatig).** Bydd y canser mewn rhai dynion wedi lledaenu'n lleol neu'n ganser y brostad metastatig wrth iddynt gael diagnosis. Ni fyddai triniaeth megis llawdriniaeth neu radiotherapi yn iachau eich canser os yw ef wedi lledaenu oherwydd na fyddai triniaethau o'r fath yn gwaredu na thargedu'r canser:

Beth yw buddion therapi hormonau?

Mae'n helpu i arafu'ch canser y brostad rhag tyfu a lledaenu.
Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y therapi yn gwneud i'r canser grebachu mewn gwirionedd. Mae'n dda yn rheoli eich canser y brostad ond ni fydd yn ei waredu.

Pwy fydd yn addas am driniaeth hormonau?

- Cleifion â chanser y brostad sydd wedi lledaenu'n lleol neu ganser y brostad metastatig. Byddai triniaeth hormonau yn cael ei defnyddio am y tymor hir.
- Bydd cleifion sy'n cael radiotherapi yn derbyn hormonau hefyd fel triniaeth ychwanegol cyn neu/ac ar ôl radiotherapi. Gellir rhoi hormonau am rai misoedd neu hyd yn oed ychydig o flynyddoedd yn yr achos hwn.
- Cleifion methodd eu llawdriniaeth neu eu triniaeth radiotherapi â gwaredu'r canser ac mae'r canser yn dychwelyd. Rhoddir y driniaeth am y tymor hir.
- Mae rhai cleifion yn gallu cael hormonau i geisio crebachu maint y brostad cyn cael triniaeth arall h.y. radiotherapi/brachytherapi. Bydd y driniaeth hormonau yn para dim ond 3-6 mis yn yr achosion hyn.

Sut rhoddir y driniaeth?

- Mae tabledi gwrth-androgennau yn atal effaith y testosteron. Gallwch hael y tabledi hyn cyn cael y pigiad a ddisgrifir isod am dair wythnos yn unig – 1 wythnos cyn a 2 wythnos ar ôl cael y pigiad.
  Enghreifftiau o'r dabled hon yw Cyprostat (Cyproteron Asetad) a Casodex (Bicalutamid). Mae rhai cleifion yn cymryd y tabledi hyn yn y tymor hir
- Mae pigiadau â gweithydd Hormon Rhyddhau'r Hormon Lwteineiddio (LHRH) yn atal testosteron rhag cael ei ryddhau gan y ceilliau.
  Rhoddir yr uchod drwy bigiad misol neu fesul 3 mis dan y croen ar eich bol neu eich braich neu yn y cyhyr (mae hyn yn berthnasol i'r pigiad misol yn unig). Mae Zoladex (Goserelin), Prostap (Leuprorelin), Suprefact (Buserelin) a De-Capeptyl (Triptorelin) i gyd yn weithyddion LHRH. Bydd eich meddyg yn egluro pa un a roddir i chi. Bydd eich meddyg teulu neu nyrs ymarferydd yn gallu rhoi'r pigiad hwn i chi yn y feddygfa.
- Llawdriniaeth i dynnu darn gweithredol y ceilliau – orcidectomi isgapsiwlaidd dwyochrog. Drwy dynnu'r rhain , ni ellir cynhyrchu testosteron. Mae hyn yn dileu'r angen am bigiadau.

Beth yw sgil effeithiau triniaeth hormonau?

Bydd pawb yn ymateb yn wahanol. Efallai byddwch yn teimlo ychydig, rhai, neu lawer o'r sgil effeithiau mwyaf cyffredin. Ceir rhestr o'r rhain isod:-

Colli libido ac awydd am ryw. Oherwydd effaith lefelau testosteron yn y corff gall fod llai o ddiddordeb mewn rhyw gennych. Nid yw colli eich libido yn golygu y byddwch yn colli diddordeb mewn datblygu perthynas gariadus a gofalgar.

- Analluedd rhywiol - colli codiadau sy'n ddigonol i gyflawni cyfathrach rywiol
- Gwrid poeth a all wella gydag amser ond gall gael ei drin weithiau pan fyddwch yn cael trafferthion gyda'r rhain.
- Brest wedi chwyddo ac yn sensitif – mae hyn yn fwy cyffredin ar gyfer y driniaeth gwrth-androgen.
- Ennill pwysau, gyda thewychu o amgylch y wasg neu chwyddo yn ardal y frest.
- Gallwch deimlo blinder, lludded a thymer isel yn ystod wythnosau cyntaf eich triniaeth.
- Gallwch chwydu a chael dolur rhydd os cewch Flutamide (Drogenil) neu Casodex (Bicalutamid) wedi ei ragnodi i chi.
- Osteoporosis (esgyrn wedi teneuo) – gall ymddangos yn y tymor hir.

Beth fydd yn digwydd os yw'r sgil effeithiau hyn yn fy mhoeni?

Dylech drafod unrhyw bryderon sydd gennych am unrhyw sgil effeithiau gyda'ch meddyg, neu nyrs. Bydd ef/hi yn gallu rhoi cyngor ichi am unrhyw driniaeth y gallwch ddechrau arni i'ch helpu i leddfu'r symptomau sydd gennych.

Sut caiff fy nhriniaeth ei dilyn?

Ar ôl ichi ddechrau ar driniaeth hormonau, trefnir apwyntiad ar eich cyfer i ddod i adran gleifion allanol i adolygu eich cynnydd. Gofynnir ichi gael y prawf PSA - prawf gwaed y brostad cyn pob apwyntiad, bydd hyn yn dweud wrthym ni pa mor dda yr ydych yn ymateb i'r driniaeth.

Os bydd popeth yn iawn, gallwn ofyn i'ch meddyg teulu gynnal eich profion gwaed PSA a monitro eich cynnydd ar ôl ychydig o flynyddoedd. Os oes pryderon gan eich meddyg teulu am unrhyw rai o'ch canlyniadau neu os bydd symptomau gennych megis poen yn yr esgyrn, bydd ef yn ysgrifennu at yr Wrolegydd yn yr ysbyty a gofyn am drefnu apwyntiad i chi gael eich gweld yn y clinig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, gweler y manylion cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:-

Wroleg Ward D 2 Dwyrain
01633 234043 / 234044 (24 awr)

Adran Cleifion Allanol Wroleg
01633 234979
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ward Dydd Wroleg
01633 656378 / 656377
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Nyrsys Clinigol Arbenigol Wro-Oncoleg
Julie Simpson
Sian Lewis
Louise Broadway
Kathleen Connor-Middleton
01633 238976 (Bydd yn dychwelyd negeseuon llais pan nad ydynt ar ddyletswyddau clinigol)
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymarferydd Nyrsio Wroleg
Laura Reynolds
Leanne Denning
01633 234758
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymholiadau llawdriniaeth/cyn-derbyn
01633 234970 / 238568
Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Cyfeiriadau:

Tanagho E A McAninch J W 2003. Smiths General Urology

British National Formulary (BNF 40) 2005 BMG Publicity Group LTD

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".